

DATHLU!

Syniadau Mawr Cymru



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

CYFRANWYR

(yn nhrefn ymddangos)



CHRIS TYWYDD JONES

LLYWYDD DIGWYDDIAD

Yn ogystal â chyflwyno sioe radio wythnosol ar Sain Abertawe, mae Chris wedi cyflwyno'r tywydd ar S4C am 29 o flynyddoedd ac mae'n gweithio fel cyflwynydd a llywydd mewn busnes, addysg, teledu a radio. Mae Chris yn berchen ar ystod o nwyddau a chynnyrch ar thema "Y Tywydd", yn cynnwys amrywiaeth o sanau wedi eu gwneud â llaw yng Nghymru gan Corgi.



JOSH LLEWELLYN JONES
CF Warriors

PRIF SIARADWR (11:10 – 11:30)

Pan anwyd Josh Llewellyn-Jones ym 1987, roedd yn dioddef gan ffibrosis cystig. Ar ei enedigaeth dim ond cyfle 10% i oroesi a roddwyd iddo ond er gwaethaf hyn fe lwyddodd i oresgyn pob anhawster ac erbyn hyn mae'n athletwr eithafol ac yn berchen record y byd.

Yn 2017 ef oedd y 5ed person yn y byd i gwblhau "Her Ffitrwydd Corfforol y Byd" mewn llai na 24 awr
Yn 2018, enillodd record y byd trwy godi 1,000,000 kilo mewn llai na 24 awr.

Yn 2019, mae ef â'i fryd ar gyflawni amcanion mwy uchelgeisiol.



RHODRI EVANS
Juicy Lucy Designs Ltd

GWEITHDY: ENTREPRENEUR RHAN AMSER – (11:45-12:10)

Ers 2000 rwyf wedi bod yn gyd berchennog Juicy Lucy Designs Limited, cwmni sy'n cynllunio a chyflenwi cardiau cyfarch ac anrhegion i fân-werthwyr annibynnol, y stryd fawr ac archfarchnadoedd ledled y DU a thramor. Rwyf hefyd yn gyfarwyddwr cwmni adnewyddu eiddo sef 85 Limited. Fel athro cymwysedig rwyf hefyd yn gweithio yn y sector addysg gyda The Eggtooth Project yn cynnal cyrsiau addysgiadol, therapiwtig, dysgu trwy brofiad.



HUW RICHARDS
HuwsNursery

GWEITHDY: ENTREPRENEUR RHAN AMSER – (11:45-12:10)

Dechreuodd Huw Richards ei sianel HuwsNursery ar YouTube pan oedd yn 12 oed, ac yn awr yn 20 mlwydd oed mae ganddo dros 100,000 o danysgrifwyr a 25 miliwn o rai'n gwyllo ar-lein. Ei nod yw ysbrydoli gymaint â phosib o bobl i ail ymddiddori mewn bwyd a rhoi cynnig ar dyfu eu cynnyrch eu hunain, waeth beth yw maint y gofod sydd ganddynt. Cynlluniwyd ei lyfr cyntaf Veg in One Bed, a gyhoeddwyd ym mis Mawrth 2019 i gynorthwyo pobl sy'n mentro am y tro cyntaf i dyfu digonedd o fwyd mewn safle bychan.



BENEDICT ROOM
Brd Gravity Centre

GWEITHDY: ENTREPRENEUR RHAN AMSER – (11:45-12:10)

Cyfarwyddwr Cwmni Profiadol gyda hanes gweladwy o weithio yn niwydiant chwaraeon eithafol. Yn fedrus ym meysydd cychwyn busnes bach a chanolig, Menter Cymdeithasol, Entrepreneuriaeth mewn Addysg, Hyfforddi a Darlithio. Gweithiwr Proffesiynol ym maes datblygu busnes ac yn berchen sgiliau cyflwyno ardderchog, wedi graddio mewn Rheolaeth Gweithgaredd Dwr ac Antur ym Mhrifysgol Metropolitan Abertawe a PGCE yn PDC






EVERTREK

ANDY MOORE
RHG & Phrif Yeti! – Evertrek

GWEITHDY: TWRISTIAETH A
LLETYGARWCH: BYD O GYFLEOEDD– (11:45-12:10)

Andy Moore, entrepreneur brwdfrydig o Dde Cymru. Arbenigwr ar deithio a dringo uchderau yn ogystal â mynyddwr ac archwiliwr medrus cadwynau mynyddoedd ucha' y byd. Mae'n sylfaenydd & Phrif Yeti cwmni teithio Evertrek sy'n arwain pobl i Wersyll Cyntaf Everest a thu hwnt ym mynyddoedd yr Himalayas. Cychwynnodd ei fusnes ar 'bean bag' yn ei ystafell fyw ond erbyn hyn mae ganddo swyddfa ffyniannus ynghyd â thîm o Evertrekkers wedi ei lleoli ar gyrion Caerdydd.



DAN SWYGART
PW & Sefydlydd, Alpacr

GWEITHDY: TWRISTIAETH A
LLETYGARWCH: BYD O GYFLEOEDD– (11:45-12:10)

Alpacr yw'r llwyfan rhyngweithio cymdeithasol sy'n cysylltu'r byd trwy daith ac antur



CAROLINE THOMPSON
BeTheSpark

GWEITHDY: MENTRO MEDDWL BUSNES – (11:45-12:10)

Caroline yw PSG BeTheSpark.
BeTheSpark yw'r mudiad a gynlluniwyd i ddod â phobl o'r un meddylfryd ynghyd ac annog arloesedd ac entrepreneuriaeth yng Nghymru



CREU
SBARC
—
BE THE
SPARK

CHARLY HAGGER
BeTheSpark

GWEITHDY: MENTRO MEDDWL BUSNES – (11:45-12:10)

Fel Pennaeth Gweithrediadau BeTheSpark rydw i wedi arfer gweithio gyda chywirdeb cyflym: yn annog mudiad i gefnogi entrepreneuriaeth arloesol a sicrhau fod ecosystem Cymru yn weladwy, syml ac yn gysylltiol.
Mae fy arbenigedd yn cynnwys meddylfryd entrepreneuriaidd, cymhwysedd ac ystwythder dysgu a strategaeth cyn cyllid – y cyfan o'r rhain yn hanfodol i gychwyn a rhedeg busnes llwyddiannus.



HAYLEY WHEELER
Just the Beginning

SIWRNAI ENTREPRENEURAIDD - SGWRS YSBRYDOLEDIG (12:25-12:35)

GWEITHDY: MEDDYLFRYD YR ENTREPRENEUR- (13:05-13:30)

Rwy'n gweithio gydag oedolion a phlant i'w cynorthwyo i orchfygu eu gorbryder ac iselder ysbryd. Rwy'n hyfforddi pobl sydd yn barod i herio a gorchfygu gorbryder, iselder neu straen, i ail gydio yn eu rheolaeth o'u bywyd a'u busnes.

Yn 2015, fe ddiodeffais gan iselder ysbryd fy hun. Wrth dderbyn y gefnogaeth gywir fy hunan a thrwy fy nealltwriaeth o orbryder ac iselder, penderfynais greu fy model hyfforddi fy hun sy'n helpu oedolion a phlant gyda'u brwydrau iechyd meddwl.

Fy mwriad yw cynorthwyo pobl i ddeall beth sy'n achosi eu brwydrau iechyd meddwl a'u gallu i'w gorchfygu.



STAGE 8
THEATRE SCHOOL

JAY SMITH
The Stage 8 Group Limited

SIWRNAI ENTREPRENEURAIDD - SGWRS YSBRYDOLEDIG (12:35-12:45)

Mae Jay yn entrepreneur ifanc o Gastell Nedd sydd wedi ennill sawl gwobr. Mae ei siwrnai fusnes wedi bod yn un amrywiol gyda llawer o uchafbwyntiau ac isel fannau, ond trwy hyn i gyd mae wedi dod trwyddi'r ochr arall gyda busnes cryf ac ethos cryf yn ogystal, mae'n mwynhau'r cyfle i gynorthwyo pobl ifanc eraill i ddatblygu eu hysbryd entrepreneuriaidd.



Capital Law

CHRIS NOTT
Capital Law

SIWRNAI ENTREPRENEURAIDD - SGWRS YSBRYDOLEDIG (12:45-12:55)

Rydw i wedi bod yn gyfreithiwr gweithredol ers dros 30 mlynedd, yn arbenigo mewn anghydfodau perchnogaeth a gweithredu busnesau. Mae hyn wedi golygu fy mod wedi ymwneud â sefydlu dau gwmni cyfreithiol. Sefydlais Capital Law yn 2006 ac rwyf wedi ei ddatblygu i fod â throsiant o £10m, yn cyflogi dros 140 o bobl. Erbyn hyn fe'i cydnabyddir fel un o brif gwmnïau cyfreithiol y DU ac fe'i dyfarnwyd yn Gwmni Cyfreithiol y Flwyddyn Cymru yn ddiweddar (The Legal 500). Yn ddiweddar hefyd fe enillom ddyfarniad FT Innovation in Law am ein gwaith yng nghyswllt ymglyfreithiad ariannol. Fe'n tra ystyrir hefyd am ein model busnes arloesol.



GEORGE SAVVA
It Takes 7 Seconds



GWEITHDY: SUT I GYFLWYNO EICH HUN (13:05-13:30)

Magwyd George yn Ne Affrica. Wedi gadael yr ysgol aeth i weithio mewn banc cyn gwasanaethu ym Myddin DA ble dysgodd ystyr 'Hunan Ddibyniaeth'.

Dewisodd 'yrfa ddeuol' fel marchnatwr & gwerthwr proffesiynol yn y sector gweithgynhyrchu ac fel hyfforddwr ac addysgwr ar gyfer Dale Carnegie.

Rhedodd fusnes marchnata llwyddiannus yn darparu systemau 'Pwynt Gwerthu' ar gyfer Gillette, Revlon a Dulux.

Yn y DU mae George wedi bod yn gysylltiedig â'r Fagloriaeth Gymreig, mentrau Entrepreneuriaeth leuenctid ar gyfer Llywodraeth Cymru a gwasanaethau Marchnata a Hyfforddiant ar gyfer mentrau Bach a Chanolig yng Nghymru a Lloegr.



LOUISE HARRIS
Tramshed Tech



GWEITHDY: AWGRYMIADAU AR GYFER GWEITHIO AR EICH LIWT EICH HUN (13:05-13:30)

Louise yw sefydlydd a RhG sefydliad hyfforddi sgiliau digidol Big Learning Company (BLC) sydd â'i wreiddiau yng Nghymru ac mae'n gyd sefydlydd Tramshed Tech, sef safleoedd gweithio hyblyg ar gyfer cwmnïau Diwydiannau Digidol a Thechnoleg i gysylltu, cydweithio a thyfu. Yn ddiweddar mae Louise wedi sefydlu AI-Academy ar gyfer marchod, sef rhwydwaith a gynlluniwyd i annog marchod i ddilyn gyrfaedd STEM gyda ffocws ar ddadansoddi problemau real y byd trwy ddefnyddio A.I. Mae arbenigedd Louise mewn busnes a sgiliau technoleg yn ei galluogi i gefnogi busnesau Cymreig i ganfod buddsoddiadau ac i allforio eu cynnyrch a'u gwasanaethau yn genedlaethol a rhyngwladol.



NOEL JAMES
Comediwr

GWEITHDY: AWGRYMIADAU AR GYFER GWEITHIO AR EICH LIWT EICH HYN (13:05-13:30)

Mae Noel wedi bod yn perfformio comedi byw ar draws y DU ers dros 20 mlynedd. Cychwynnodd ar y sircyt amgen yn Llundain, ac yna ymestyn. Heddiw mae ei brofiad yn cynnwys perfformio ar fordaith; Radio a theledu, a phencadlys milwrol y Falklands. Mae'n rhugl yn y Gymraeg yn ogystal â Saesneg. Yn 2018 cyrhaeddodd rownd gyn derfynol BGT.



LEE WOODMAN
Visit Digital Ltd

GWEITHDY: AWGRYMIADAU AR GYFER GWEITHIO AR EICH LIWT EICH HUN (13:05-13:30)

GWEITHDY: Y BYD DIGIDOL: BOD YN TECHTRAPRENEUR (14:15-14:40)

Mae Lee Woodman yn rhedeg ymgynghoriaeth marchnata digidol sef VisitDigital.com. yn Abertawe. Maent yn arbenigo mewn cynorthwyo cleientiaid i ddeall eu cwsmeriaid ar-lein gyda'r bwriad o ddarganfod data hynod werthfawr i alluogi rhanddeiliaid diddordeb i wneud penderfyniadau gwell a mwy hyderus yn eu busnes. Mae eu cleientiaid yn cynnwys The Lad Bible, Billionaire.com, Car Buye ac amryw o blith y 50 safle gwe gorau yn y DU



TINO DZARO
Tino's Café

GWEITHDY: SUT I GYCHWYN BUSNES AR Y STRYD FAWR – (13:05-13:30)

Mae Tino yn berchen ar fusnes arlwyo a danfon bwyd, mae ganddi hefyd gr p rhwydwaith merched sef WINS



DR BEN REYNOLDS
Cyfarwyddwr, Urban Foundry BCorp

GWEITHDY: SUT I GYCHWYN BUSNES AR Y STRYD FAWR – (13:05-13:30)

Ben yw Cyfarwyddwr Urban Foundry BCorp – asiantaeth adfywhad creadigol sy'n bathu syniadau gwych ar gyfer newid y byd er gwell . Ei ddoethuriaeth yw adfywhad creadigol dinasoedd ac mae ganddo 25 mlynedd o brofiad mewn mentrau adfywhau sy'n cynnwys cynlluniau gwerth sawl miliwn o bunnau i brosiectau bach cymunedol .

Mae wedi gwasanaethau ar nifer o fyrddau/paneli yn ymwneud â menter gymdeithasol, elusennau a phartneriaethau adfywhad ac roedd yn Gomisiynydd ar gyfer Comisiwn Cwmnïau Cydweithredol a Chydfuddiannol Llywodraeth Cymru

Mae Ben wedi ysgrifennu am adfywhad diwylliannol dinasoedd, wedi cyfrannu cyhoeddiadau ar adfywhad cymunedau ac wedi dysgu ym Mhrifysgol Abertawe a PCDDS.



AVARUS

RYAN STEPHENS
AVARUS

GWEITHDY: SUT I GYCHWYN BUSNES AR Y STRYD FAWR – (13:05-13:30)

Cychwynnais fy musnes cyntaf pan oeddwn yn 19 mlwydd oed ac rwyf wedi rhoi cychwyn ar sawl un arall ers hynny.

Yn 20 mlwydd oed enillais Entrepreneur y flwyddyn wrth ddilyn cwrs menter a oedd ond yn derbyn 12 o bobl y flwyddyn o Gymru gyfan. Ar hyn o bryd rwy'n berchen ar gwmni AVARUS, marchnad ffasiwn ar-lein gyda dros 3500 o gynnyrch ar gyfer dynion a merched.

Cefais help gan Syniadau Mawr Cymru pan oeddwn yn cychwyn fy musnes cyn i mi ddod yn fodel rôl ar eu cyfer, felly mae'n ffraind i mi fod yn ôl yma yn rhannu'r wybodaeth a gefais.



The  Patch




LISA FEARN

Y Sied Carmarthen & The Pumpkin Patch Cookery & Gardening School

SIWRNAI ENTREPRENEURAIDD - SGWRS YSBRYDOLEDIG (13:45-13:55)

Mae Lisa yn rhedeg The Pumpkin Patch Cookery and Gardening School yn ne Cymru sy'n canolbwyntio ar GYO, coginio a bwyta'n iach. Mae Lisa yn wyneb cyfarwydd yn y gwyliau bwyd a digwyddiadau cymunedol o gwmpas Cymru ac mae'n ymddangos yn rheolaidd ar Prynhawn Da ar S4C, Radio Wales a Radio Cymru. Fel athrawes a mam i 5 yn eu harddegau, mae hi'n mynychu nifer o ysgolion lleol, clybiau a sefydliadau yn rheolaidd ble mae'n annog ac ysbrydoli pobl o bob oed i gychwyn coginio.

Cyhoeddodd Lisa ei llyfr coginio cyntaf Blas/Taste dathlu bwyd & teulu yn 2017, gan ddilyn gyda Celebrate/Dathlu yn Rhagfyr 2018 hefyd gan Wasg Gomer.



VIRTUS
TECH.

GEORGE BELLWOOD
Virtus Tech Ltd

SIWRNAI ENTREPRENEURAIDD - SGWRS YSBRYDOLEDIG (13:55-14:05)

Cychwynnodd fy siwrnai i ddod yn entrepreneur ar ôl gwrando ar ddarlith. Gwelais gyfle i newid profiad ar-lein defnyddwyr a mynd amdani.

Cwmni technegol sy'n darparu gwasanaethau Realiti Rhithwir/ Virtual Reality (VR), a Deallusrwydd Artiffisial /Artificial Intelligence (AI) i fusnesau sy'n dymuno cynyddu eu rhyngwynebu ar-lein a phrofiad gwerthu ar safle gyda chwsmeriaid yw Virtus Tech. Ar hyn o bryd rydym yn gweithio ar brosiect Newydd gyda mân-werthwyr lleol yng nghymuned Caerdydd, gan ddatblygu rhaglen Realiti Estynedig /Augmented Reality (AR) newydd i gynorthwyo cleientiaid ein cwsmeriaid wrth grwydro trwy'r siop. Hon yw'r siwrnai entrepreneuriaid fwyaf hyd yn hyn.



ANTHONY JOHN RICHARDS
Admiral Group

GWEITHDY: EICH GWAITH, EICH BUSNES (14:15-14:40)

Rheolwr a hyfforddwr sydd wedi ennill gwobrau a sydd ag ysgogiad cynhenid ac angerdd tuag at ddatblygu pobl. Yn rhoi blaenoriaeth i ganolbwyntio ar gwsmeriaid, staff a grŵp y cwmni yn ei gyfanrwydd bob amser, ac yn gwerthfawrogi gwaith unigolion ac undod gweithio uniongyrchol. Yn hunan ysgogol, angerddol, ac yn benderfynol o ennill y canlyniadau a'r llwyddiannau a ddymunir trwy greu hyfforddiant ysgogol a phroffesiynol llawn hwyl a sesiynau wedi'u haddasu ar gyfer cefnogi strategaeth gyfredol y busnes ar gyfer dysgu a datblygu.



DENZIL HOPKINS
Admiral Group

GWEITHDY: EICH GWAITH, EICH BUSNES (14:15-14:40)

Rheolwr profiadol sydd wedi ennill Dyfarniad ac wedi gweithio i Admiral am bron 18 mlynedd mewn nifer o adrannau yma yn y DU ac yn fyd eang. Rheolwr sy'n canolbwyntio ar annog ac ysgogi aelodau tîm i gyflawni eu potensial llawn a chyrraedd y gorau y gallant fod.



GEMMA HALLETT
Prif Drefnwraig, miFuture

GWEITHDY: Y BYD DIGIDOL: BOD YN TECHTRAPRENEUR (14:15-14:40)

Yn gyn athrawes Addysg Gorfforol a Chwaraewraig Rygbi Rhyngwladol penderfynodd Gemma Hallett, o Beddau, ger Pontypridd, roi'r gorau i'w gwaith a defnyddio ei thâl colli gwaith i hunan ariannu rhaglen/app miFuture.

Yn teimlo'n rhwystredig gyda'r ddarpariaeth gyrfa gyfredol, gweithiodd Gemma gyda dros 2,500 o bobl ifanc i greu datrysiad ar gyfer darganfod a gwneud cais am gyfleoedd.

Mae app miFuture yn dod â chyfleoedd priodol yn uniongyrchol i sylw'r bobl ifanc gan eu galluogi i wneud cais am swyddi, cyrsiau hyfforddiant a gwirfoddoli mewn un symudiad. Yn dilyn cyfnod peilot llwyddiannus mae hi yn lansio ei rhaglen yn genedlaethol gyda'r bwriad clir o 'ymgynnull 100,000 o bobl ifanc Cymru a'u harwain tuag at gyflogadwyedd a llewyrch.



RICHARD WOOLLEY
Paperclip

GWEITHDY: Y BYD DIGIDOL: BOD YN TECHTRAPRENEUR (14:15-14:40)

Rich yw PSG a sefydlydd Paperclip, darparydd blaenllaw marchnad leoedd myfyrwyr ar gyfer prifysgolion o amgylch y DU. Ar hyn o bryd fe'i rhestrir fel un o 35 o bobl busnes mwyaf dylanwadol Cymru. Mae Rich yn byw yng Nghaerdydd ble mae ganddo dîm sydd wedi datblygu o *Natwest Accelerator* yn *One Central Square*.



JULIA PERRY
Galluogwraig Twf Busnes, NatWest

GWEITHDY: CYCHWYN AR Y NESAF PETH I DDIM (14:15-14:40)

Datblygwyd fy rôl fel Galluogwr Twf Busnes yn Nyfed ac Abertawe i gefnogi busnesau lleol a chynorthwyo gweithgaredd entrepreneuriaidd yn y gymuned leol. Cyd gysylltu cwsmeriaid newydd a chyfredol gyda phobl broffesiynol allanol i'w helpu i ddiwallu eu hanghenion ac arbed arian ac amser iddynt.

Rwy'n berson dymunol, ysgogol a phenderfynol gydag angerdd am addysg ac entrepreneuriaeth. Rwy'n chwarae rhan weithredol yn fy nghlwb rhedeg lleol ac yn ddiweddar rwyf wedi dechrau datblygu fy sgiliau nofio a beicio.



STACEY ADAMIEC
Entrepreneur Cyfresol

H&A PANEL ENTREPRENEUR – (14:55- 15:30)

Mae Stacey yn Entrepreneur Cyfresol a strategydd twf busnes. Rhoi bywyd newydd i eiddo gwag ar gyfer pobl gyda phwrpas. Wedi ei hysbrydoli ar ôl dychwelyd o Lundain fel Coreograffydd, sefydlodd ei busnes cyntaf sef Canolfan Ddawns ddinesig 'Revue' gan ei ddatblygu yn hwb gofod stiwdio ar gyfer pobl greadigol, annibynnol a llawrydd. Mae'n gyfrannwr mawr i fenter gyda phwrpas cymdeithasol a sut y gallant gyfrannu i ddod yn fodelau busnes. Mae Stacey hefyd yn rhedeg ymgynghoriaeth adfywhad annibynnol '10C' ynghyd â rhwydwaith ar gyfer entrepreneuriaid benywaidd 'She Started It!' ac mae'n gefnogwr brwd o dwf y stryd fawr #Bizlifestacey



PAUL HARWOOD
TechHub

GWEITHDY : AWGRYMIADAU AR GYFER GWEITHIO AR EICH LIWT EICH HUN (13:05-13:30)

H&A PANEL ENTREPRENEUR – (14:55- 15:30)

Mae Paul yn entrepreneur gwe profiadol gyda barf llwyd priodol! Mae'n ddatblygwr *full stack* gyda gwybodaeth weithiol o systemau BigData ac mae'n ymddiddori mewn *ariancrypto* yn ei holl ffurfiau (ac mae wrth ei fodd yn helpu busnesau cychwynnol i dyfu) Yn wreiddiol o Abertawe, treuliodd Paul yr 17 mlynedd diwethaf yn gweithio ar ei gwmnïau gwe ei hun ym Mryste a Llundain ac fe sefydlodd TechHub Abertawe oherwydd ei fod eisiau gweld De Cymru yn tyfu a thrawsnewid cyfleoedd pobl fel ag y gwelodd mewn dinasoedd eraill.



MICHELLE ROCHE
Enterprise Nation

H&A PANEL ENTREPRENEUR – (14:55- 15:30)

Gyda BA anrhydedd mewn Busnes a Japanaeg, ac MA mewn Theatr Arbrofol rwy'n llwyddo'n ddeheuig i fod â throed ym myd Creadigol a byd Busnes. Fe greais realiti o'r gêm *Lemonade* waradwyddus ac rwyf wedi rhedeg fy Stondinau *Lemonade* fy hun yn llwyddiannus am dros 13 mlynedd, gan greu fy musnes 'ffordd o fyw' fy hunan. Rwyf hefyd yn wneuthurwr theatr llawrydd, cynhyrchydd a rheolwr prosiect yn gweithio gyda phobl ifanc i'w galluogi i gyflawni eu potensial trwy'r celfyddydau. Yn 2014 mynychais School for Creative Start-Ups gyda fy Secret Date Club a lansir ym Mryste ai ail lansio yn Llundain eleni. Rwyf hefyd yn gweithio gydag artistiaid/unigolion hunan gyflogedig, mentrau celfyddydol bychan a CIC's i drafod eu strwythur a'u strategaeth yn ogystal â datblygu eu strategaethau marchnata a chyfryngau cymdeithasol.



ANGHARAD WOODLAND
The Woodland Davies Partnership LLP

H&A PANEL ENTREPRENEUR– (14:55- 15:30)

Rwy'n gyfreithiwr a Phartner Reolwr gyda Woodland Davies yn Y Gelli ac Aberhonddu cychwynnais fy nghwmni fy hun yn 2003 pan yn 28 mlwydd oed. Rwy'n byw yn Aberhonddu gyda'm g r a thri mab.



SyniadauMawr.cymru

Busnes Cymru | Business Wales



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Cronfa Datblygu
Rhanbarthol Ewrop
European Regional
Development Fund**